CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhalwyd drwy ffyrf hybrid **nos Fawrth, 20 o Fedi 2022** am **7:00yh**

(bu ail-drefnu'r cyfarfod o'r 12 o Fedi yn dilyn marwolaeth EM Brenhines Elizabeth II)

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Menna Jones, Dafydd Hughes, Anne Roberts a Heather Williams.
Sian Clark – Clerc y Dref a Marian Rees - Cyfieithydd

19. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes.

20. ETHOL CADEIRYDD I'R CYFARFOD
Wedi derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Jabez Redfern Oakes, bu i'r Cynghorydd Heather Williams gael ei chynig a'i heilio i gadeirio'r cyfarfod. Ni dderbynwyd cynigion eraill.

21. DATGAN BUDDIANNAU
Dim.

22. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 4 o Orffennaf 2022 yn gywir. Fe nodwyd ymateb ffurfiol gan y Cyngor Tref i Gyngor Sir Ddinbych parthed cais cynllunio 02/2022/0561 Cyn Ysgol Stryd y Rhos, Stryd y Rhos, Rhuthun.
PENDERFYNWYD: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 4 o Offennaf 2022 yn cael eu cadarnhau; ac i nodi* ymateb ffurfiol gan y Cyngor Tref i Gyngor Sir Ddinbych parthed cais cynllunio 02/2022/0561 Cyn Ysgol Stryd y Rhos, Stryd y Rhos, Rhuthun.

23. MATERION YN CODI
Eitem 17: Ceisiadau Cynllunio '02/2022/0561 Cyn Ysgol Stryd y Rhos Stryd y Rhos, , Rhuthun' – Dywedodd y Clerc bod Swyddogion o Gyngor Sir Ddinbych wedi gofyn am ragor o wybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd yn dilyn y broses ymgynghori diweddar; nid oedd y wybodaeth hon wedi dod i law eto.
Eitem 8: Cymorth Cynllunio Cymru - 'Cynllunio: O'r Dechrau i'r Diwedd': Gofynnwyd i'r Aelodau fynychu y cwrs hyfforddi ar-lein cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor a hysbysu'r Clerc ar ôl ei gwblhau.
Pwyllgor Pwerau Brys Eitem 6: Ceisiadau Cynllunio 02/2022/0676 a 02/2022/0677 – HSBC 1 Sgwâr San Pedr: Roedd y Clerc wedi danfon llythyr at HSBC drwy'r gangen leol; roedd yn disgwyl ymateb.

24. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Roedd manylion penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych wedi eu dosbarthu gyda'r agenda a'r agenda ychwanegol.
PENDERFYNWYD: *nodwyd y penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Dinbych.*

25. CEISIADAU CYNLLUNIO
Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor

Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.

***PENDERFYNWYD: nad oedd gwrthwynebiad** i'r ceisiadau a ganlyn:*

02/2022/0727 HSBC St. Peters Square, Ruthin
Gosod 1 camera teledu cylch cyfyng allanol (cais Adeilad Rhestredig).
Dim gwrthwynebiad.

02/2022/0726 HSBC St. Peters Square, Ruthin
Gosod 1 camera teledu cylch cyfyng allanol.
Dim gwrthwynebiad.

02/2022/0674 Land at (Part garden of) Y Fron, Mwrog Street, Ruthin
Amrywio cyflwr rhif 2 o ganiatâd cynllunio 02/2018/1108 i ganiatáu manylion diwygiedig am annedd, cynllun a thirlunio gymeradwyed.
Dim gwrthwynebiad.

02/2022/0756 21 Porth Y Dre, Ruthin
Codi estyniad cefn un llawr a gwaith cysylltiedig
Dim gwrthwynebiad.

02/2022/0737 149 / 151 Mwrog Street, Ruthin
Newidiadau i'r wal derfyn flaen i wella gweledededd (cais Adeilad Rhestredig).
Dim gwrthwynebiad.

02/2022/0777 Crown Cottage, 13 Well Street, Ruthin
Newid defnydd o salon harddwch i ffurfio un annedd, gan gynnwys addasiadau mewnol, newid i fenestri a gwaith cysylltiedig.
Dim gwrthwynebiad.

02/2022/0759 Llys Gwillym Borthyn Ruthin
Newidiadau i'r annedd gan gynnwys ymestyn cwrtil domestig, ffurfio parcio a mynediad trwy garej ynghlwm, mewnosod ffenestri to, cau mynediad i gerbydau presennol a gwaith cysylltiedig.
Dim gwrthwynebiad. Mae Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Cyngor Tref Rhuthun yn cefnogi'r awgrym/cais bod Arolwg Ffotograffaidd yn cael ei gynnal o'r safle cyn ymgymryd ag addasiadau a gwaith cysylltiedig**.**

***PENDERFYNWYD: bod gwrthwynebiad** i'r cais canlynol:*

02/2022/0736 Land at (Part garden of) 149 Mwrog Street, Ruthin
Codi 1 annedd ar wahân, darparu man parcio ar gyfer rhif 149 a gwaith cysylltiedig.
Bod Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Cyngor Tref Rhuthun **yn gwrthwynebu** ar y seiliau cynllunio a ganlyn: (i) gorddatblygu'r safle, a (ii) pryderon yn ymwneud â mynediad cerbydau i/o'r safle.

26. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
***PENDERFYNWYD**: mai nos Lun, 10 o Hydref am 7.00pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*